# Rhestr Wirio ar gyfer Parodrwydd

## Cefnogi'r broses o newid i ddarparu'r cymwysterau newydd ym maes Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu

Fersiwn 1
Medi 2020

## Cyflwyniad

O fis Medi 2021 ymlaen, City & Guilds ac EAL fydd unig ddarparwr cyfres newydd o gymwysterau y gellir eu hariannu ym maes Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu yng Nghymru.

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

Rydym wedi creu'r rhestr wirio pedwar cam yma i'ch helpu chi i baratoi a rheoli'r broses o bontio rhwng yr hen gymwysterau a'r cymwysterau newydd ym maes Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu, sydd wedi cael eu cynllunio ar gyfer anghenion sgiliau Cymru.

Bydd y gyfres o gymwysterau ar gael i ddysgwyr o fis Medi 2021 ymlaen.

Gallwch ddefnyddio'r rhestr wirio yma i helpu i sicrhau bod popeth yn ei le gennych chi, a'ch bod yn barod i gychwyn ar y gwaith.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf

Gallwch gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf gan City & Guilds ac EAL am y gyfres newydd yma o gymwysterau y gellir eu cyllido ym maes Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu, drwy fynd i'n gwefan bwrpasol ar eu cyfer: **skillsforwales.wales/cy**

Gwnewch yn siŵr eich bod hefyd wedi cofrestru i gael diweddariadau dros e-bost.

### I gofrestru, ewch i **skillsforwales.wales**/cy/cofrestrwch

Pan ofynnir i chi, dewiswch a ydych am gael gwybodaeth am gymwysterau adeiladu a/neu beirianneg gwasanaethau adeiladu, diweddariadau, a bod y cyntaf i glywed am ddigwyddiadau a gweminarau newydd.

Os oes gennych chi ymholiadau cyffredinol, anfonwch e-bost i skillsforwales.customer@cityandguilds.com neu skillsforwales.customer@eal.org.uk, neu ffoniwch 0844 543 0033, opsiwn 3, rhwng 8am a 5pm

# Y gyfres o gymwysterau

## Lefel 3 Prentisiaeth

- Adeiladu Dwy Flynedd **Yn Fyw: Medi 21** (City & Guilds)
- Adeiladu Tair Blynedd **Yn Fyw: Medi 21** (City & Guilds)
- Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Dwy Flynedd **Yn Fyw: Medi 21** (eal)
- Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Tair Blynedd **Yn Fyw: Medi 21** (eal)
- Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Pedair Blynedd **Yn Fyw: Medi 21** (eal)

## Lefel 2

- Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig **Yn Fyw: Medi 21** (City & Guilds)
- Cymhwyster Craidd mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig **Yn Fyw: Medi 21** (City & Guilds)
- Cynnydd mewn Adeiladu **Yn Fyw: Medi 21** (City & Guilds)
- Cynnydd mewn Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu **Yn Fyw: Medi 21** (eal)

## TAG Uwch Gyfrannol / TAG Safon Uwch

- TAG Uwch Gyfrannol mewn Amgylchedd Adeiledig **Yn Fyw: Medi 22** (wjec cbac)
- TAG Lefel A mewn Amgylchedd Adeiledig **Yn Fyw: Medi 22** (wjec cbac)

## TGAU

- TGAU mewn Amgylchedd Adeiledig **Yn Fyw: Medi 21** (wjec cbac)

City & Guilds: Cynigir gan City & Guilds


eal: Cynigir gan EAL

wjec cbac: Cynigir gan CBAC

# Opsiynau i ddysgwyr ar gyfer pwyntiau mynediad Lefelau 2 a 3

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn A i ddysgwyr**<br>Dysgu'n llawnamser am flwyddyn cyn cael prentisiaeth | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig | Cymhwyster Prentisiaeth Adeiladu 2 neu 3 blynedd<br>Cymhwyster Prentisiaeth - Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu 2, 3 neu 4 blynedd | | |
| **Opsiwn B i ddysgwyr**<br>Cwblhau dwy flynedd o ddysgu amser llawn cyn cael prentisiaeth | Cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig | Cymhwyster Cynnydd (mewn llwybr crefft a ddewiswyd ym maes Adeiladu neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu) | Cymhwyster Prentisiaeth Adeiladu 2 neu 3 blynedd<br>Cymhwyster Prentisiaeth – Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu 2, 3 neu 4 blynedd | |
| **Opsiwn C i ddysgwyr**<br>Dilyn y cymhwyster Craidd neu Sylfaen i ffwrdd o'r gwaith wrth wneud prentisiaeth | Cymhwyster Craidd neu Sylfaen a Chymhwyster Prentisiaeth Adeiladu 2 neu 3 blynedd<br>Cymhwyster Craidd neu Sylfaen a Chymhwyster Prentisiaeth Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu 2, 3 neu 4 blynedd | | | |
| **Nodiadau** | **Carfannau 1 a 2**<br>Mae trefniadau pontio'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ar gyfer dysgwyr sy'n cwblhau eu cymwysterau yn 2021 | **Hyd y Brentisiaeth**<br>Gall hyd prentisiaethau amrywio, gan ddibynnu ar y llwybr crefft a ddewiswyd | | |

# Amserlen rhoi ar waith



# Cam 1 Ymgyfarwyddo â'r cymwysterau

| Pethau i'w hystyried | Bob dim yn glir, yn ddealladwy ac wedi'i roi ar waith? | Angen mwy o wybodaeth, neu fwy i'w wneud? | Beth ddylech ei wneud |
|---|---|---|---|
| **Ydych chi'n gwybod ym mhle i ddod o hyd i wybodaeth allweddol am y cymwysterau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu?** | ☐ | ☐ | Ewch i'r wefan: skillsforwales.wales/cy |
| **Ydych chi wedi cofrestru i gael diweddariadau ynghylch Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu gan City & Guilds ac EAL?** | ☐ | ☐ | Ewch i skillsforwales.wales/cy i gofrestru i gael negeseuon e-bost ynghylch newyddion, digwyddiadau sydd ar y gweill a gwybodaeth arall. |
| **Ydych chi'n deall hyd a lled a diben y cymwysterau ar gyfer eich sector?** | ☐ | ☐ | Ewch i'r tudalennau hyfforddiant a digwyddiadau ar wefan skillsforwales.wales/cy i gofrestru ar gyfer gweminar cadw mewn cysylltiad, a gynhelir rhwng mis Mawrth a Thachwedd 2020. Gwyliwch y gweminarau cadw mewn cysylltiad a recordiwyd rydych chi wedi'u colli, a'r weminar 'Trosolwg o'r gyfres o gymwysterau a'r amserlenni datblygu'. |
| **Pa mor gyfarwydd ydych chi â chynnwys y pwnc newydd ar gyfer Adeiladu a/neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu?** | ☐ | ☐ | Bydd manylebau drafft ar gynnwys cyffredin y cymhwyster Sylfaen ar gael ar y dudalen cymwysterau ar wefan skillsforwales.wales/cy o 14 Medi 2021 ymlaen. Bydd cynnwys cyffredin y cymwysterau Cynnydd a Phrentisiaeth ar gael o 5 Hydref 2021 ymlaen. Bydd y cynnwys Crefft ar gael ar ffurf drafft o fis Rhagfyr 2021 ymlaen. |

## Cam 2 Sicrhau bod timau canolfannau'n deall y newidiadau

| Pethau i'w hystyried | Bob dim yn ddealladwy ac wedi'i roi ar waith? | Angen mwy o wybodaeth, neu fwy i'w wneud? | Beth ddylech chi ei wneud |
|---|---|---|---|
| **Oes gan yr uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r cymwysterau newydd, yn enwedig y goblygiadau o ran cynllunio rhaglenni ac adnoddau?** | ☐ | ☐ | Ewch i'r ddogfen Aseswr a Gofynion Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA) yn yr adran adnoddau ar skillsforwales.wales/cy. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael yn llawlyfrau manyleb y cymwysterau (edrychwch ar yr amserlen i weld y dyddiadau cyhoeddi).<br><br>Gall arweinwyr y cwricwlwm weld templed cynllunio'r broses gyflawni yn yr adran adnoddau yn skillsforwales.wales/cy, i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhaglenni. |
| **Ydy'r tiwtoriaid yn gyfarwydd â'r cymwysterau ac yn ystyried paratoi i'w darparu?** | ☐ | ☐ | Bydd gweminarau'n cael eu cynnal rhwng mis Ionawr a Mehefin 2021. Ewch i'r adran 'hyfforddiant a digwyddiadau' yn skillsforwales.wales/cy i gofrestru a gweld y gweminarau sydd wedi'u recordio. |
| **Ydy'r tiwtoriaid yn gyfarwydd â'r adnoddau dysgu ac addysgu sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r cymwysterau newydd?** | ☐ | ☐ | Bydd adnoddau dysgu ac addysgu ar gael yn yr adran adnoddau ar wefan skillsforwales.wales/cy o fis Mawrth 2021 ymlaen. O fis Ebrill 2021 ymlaen, bydd canllawiau darparu'n cael eu cyhoeddi a bydd gwybodaeth ar gael am ddatblygiad proffesiynol parhaus. |
| **Ydy'r tiwtoriaid, yr aseswyr a'r staff Sicrhau Ansawdd Mewnol yn gyfarwydd â'r canllawiau ar gyfer y Prosiect, trafodaeth broffesiynol a dan arweiniad?** | ☐ | ☐ | Mae'r canllawiau i'w gweld yn Llawlyfr y Cymhwyster, ac ym mhecynnau asesu'r cymhwyster perthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydy'r timau asesu'n gyfarwydd â'r newidiadau a'r goblygiadau tebygol i broses gyflawni'r ganolfan?** | ☐ | ☐ | Darllenwch y ddogfen Aseswr a Gofynion Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA) yn yr adran adnoddau ar skillsforwales.wales/cy. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael yn llawlyfrau manyleb y cymwysterau (edrychwch ar yr amserlen i weld y dyddiadau cyhoeddi).<br>Ewch i'r adran hyfforddiant a digwyddiadau yn skillsforwales.wales/cy i gofrestru ar gyfer y gweminarau. |
| **Pa mor gyfarwydd ydy'r staff sicrhau ansawdd mewnol â'r cymwysterau a'r dulliau asesu newydd?** | ☐ | ☐ | Darllenwch y ddogfen aseswr a gofynion sicrhau ansawdd mewnol yn yr adran adnoddau ar wefan skillsforwales.wales/cy. Bydd gwybodaeth hefyd ar gael yn llawlyfrau manyleb y cymwysterau (edrychwch ar yr amserlen i weld y dyddiadau cyhoeddi). |
| **Ydy'r staff sy'n gweinyddu'r cymwysterau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu (ee, staff arholiadau) yn ymwybodol o'r newidiadau?** | ☐ | ☐ | O fis Ionawr 2021 ymlaen, byddwch chi'n gallu lawrlwytho'r PDF 'An introduction to working with City & Guilds \| EAL' yn skillsforwales.wales |
| **Mae gan y staff sy'n gyfrifol am yr addysgu ac am asesu cyflogadwyedd ddealltwriaeth dda o gynnwys y cymwysterau newydd, er mwyn cefnogi gweithgareddau sy'n cynnwys cyflogadwyedd mewn rhaglenni astudio** | ☐ | ☐ | Bydd llawlyfrau manyleb y cymwysterau yn rhoi gwybodaeth a chanllawiau cyflawni ynghylch unedau Cyflogadwyedd. |
| **Mae'r cynlluniau yn eu lle i sicrhau arferion da wrth wreiddio'r broses o addysgu mathemateg, Cymraeg a Saesneg, a rhoi hynny yn ei gyd-destun** | ☐ | ☐ | Dylech ymgyfarwyddo â gwreiddio'r broses o addysgu mathemateg, Cymraeg a Saesneg. |
| **Mae'r wybodaeth a gasglwyd mewn gweminarau wedi cael ei thrafod â'ch tîm cyflawni ehangach** | ☐ | ☐ | Yn eich sefydliad, rhannwch yr wybodaeth rydych wedi'i dysgu mewn digwyddiadau a gweminarau, gan gynnwys sleidiau dilynol ar ôl y digwyddiad neu recordiadau o'r gweminarau. |

## Cam 3 Gwneud cais i'r ganolfan a'r cymhwyster gael eu cymeradwyo

| Pethau i'w hystyried | Bob dim yn ddealladwy ac wedi'i roi ar waith? | Angen mwy o wybodaeth, neu fwy i'w wneud? | Beth ddylech chi ei wneud |
|---|---|---|---|
| **Mae archwiliad staff wedi cael ei gynnal i gadarnhau cymhwysedd technegol a galwedigaethau priodol yn ôl cymhwyster a lefel** | ☐ | ☐ | Darllenwch adran gofynion y ganolfan yn y llawlyfr manyleb, a chreu cynllun ar gyfer unrhyw hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus neu hyfforddiant staff arall sydd ei angen. |
| **Mae'r holl dystiolaeth ddogfennol a pholisïau gofynnol yn eu lle er mwyn i'r ganolfan a'r cymhwyster gael eu cymeradwyo *** | ☐ | ☐ | Darllenwch bob adran ar y ffurflen gymeradwyo i wneud yn siŵr bod popeth yn ei le ac ar gael i'w archwilio gan y Corff Dyfarnu<br>* Mae'r rhain wrthi'n cael eu datblygu – byddan nhw'n mynd yn fyw ym mis Ionawr 21. |
| **Mae ffurflen gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster wedi cael ei llenwi a'i chyflwyno*** | ☐ | ☐ | O fis Ionawr 2021 ymlaen, byddwch chi'n gallu lawrlwytho'r ffurflenni cais ar gyfer y ganolfan a'r cymhwyster, a'r ddogfen 'An introduction to working with City & Guilds \| EAL' yn skillsforwales.wales |
| **Wedi cadarnhau gyda City & Guilds \| EAL beth yw dyddiad ac amser yr ymweliad i gymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster** | ☐ | ☐ | Ar ôl i'ch ffurflen gael ei llenwi, bydd swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn cysylltu â'ch canolfan dros y ffôn neu e-bost i drefnu dyddiad yr ymweliad. |
| **Mae prosesau mewnol ar waith i helpu i baratoi at y cymwysterau sy'n cynnwys asesiadau allanol** | ☐ | ☐ | Mae angen i chi wybod pa gymwysterau sy'n cynnwys asesiad allanol yn y llawlyfrau manyleb, a sicrhau bod eich systemau TG yn gydnaws â gofynion y Corff Dyfarnu.<br>e-volve ar gyfer profion ar-lein gyda City & Guilds<br>Llwyfan EAL drwy Wasanaethau Ar-lein – BTL Surpass |

## Cam 4 cynllunio a gweithredu

| Pethau i'w hystyried | Bob dim yn glir, yn ddealladwy ac wedi'i roi ar waith? | Angen mwy o wybodaeth, neu fwy i'w wneud? | Beth ddylech chi ei wneud |
|---|---|---|---|
| **Cynllun i gefnogi'r gwaith o asesu'n ddwyieithog, pan fydd angen** | ☐ | ☐ | Sicrhau bod yr holl staff sy'n darparu'r cymwysterau'n ymwybodol bod adnoddau dysgu, addysgu ac asesu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar y wefan. Pan fydd angen, rhowch systemau a phrosesau ar waith i alluogi a grymuso dysgwyr i gyflawni'r cymhwyster yn yr iaith o'u dewis. |
| **Mae cynllun yn ei le gyda thiwtoriaid, aseswyr a staff Sicrhau Ansawdd Mewnol i gefnogi'r gwaith o integreiddio, cysoni a safoni gwaith marcio'r prosiect a thrafodaethau dan arweiniad** | ☐ | ☐ | Bydd gweminarau Addysgu, Dysgu ac Asesu'n cael eu cynnal rhwng mis Mai 2021 a Mehefin 2021. Cadwch lygad ar yr adran 'hyfforddiant a digwyddiadau' yn skillsforwales.wales/cy i gofrestru pan fydd y gweminarau hyn ar gael.<br><br>Dylech weithio ar raglenni ac ar gynllunio'r cwricwlwm i weld lle gellir defnyddio dulliau integredig a chydweithredu ar gyfer y cymhwyster Sylfaen a Chraidd.<br><br>Mae gweithgareddau safoni a chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynllunio er mwyn i'r staff allu cydweithio tuag at arferion gorau. O fis Tachwedd 2021 ymlaen, dylech sicrhau bod cyfarfodydd yn cyd-daro â dyddiadau rhwydwaith City & Guilds \| EAL pan fydd modd, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar skillsforwales.wales/cy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Goblygiadau i Brentisiaethau, ee, prosiect seiliedig ar waith, sêl bendith y cyflogwr a thrafodaeth broffesiynol** | ☐ | ☐ | Darllenwch lawlyfrau'r cymwysterau yn skillsforwales.wales/cy i weld beth yw'r Oriau Dysgu dan Arweiniad ar gyfer pob cymhwyster.<br>Darllenwch y Fanyleb ar gyfer Safonau Prentisiaeth yng Nghymru ynghylch oriau yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.<br>Gwnewch yn siŵr bod eich rhaglenni astudio'n nodi cerrig milltir pwysig y cyllidwyr ar gyfer cyflawni, a chyfnodau asesu'r Corff Dyfarnu.<br>Gwnewch yn siŵr bod templedi ar gyfer cynlluniau dysgu unigol yn cyd-fynd â cherrig milltir a chyfnodau asesu, ac yn rhoi digon o gyfle i fodloni gofynion yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith.<br>Darllenwch y trefniadau Cydnabod Dysgu Blaenorol yn llawlyfrau manyleb y cymwysterau, a chynnwys hynny yn y trefniadau cofrestru ac asesu cychwynnol. |
| **Gwybod pryd fydd eich asesiadau allanol ar gael** | ☐ | ☐ | Mewngofnodwch i system Yr Ardd Furiog City & Guilds neu www.eal.org.uk, i gadarnhau'r amserlenni asesu. Diffiniwch broses i ganfod pryd mae dysgwr yn barod i gael ei asesu [Sut mae disgrifio beth mae angen i gwsmeriaid ei wneud, neu ble mae angen iddyn nhw fynd, er mwyn defnyddio system EAL]. |

| Pethau i'w hystyried | Bob dim yn ddealladwy ac wedi'i roi ar waith? | Angen mwy o wybodaeth, neu fwy i'w wneud? | Beth ddylech chi ei wneud |
|---|---|---|---|
| **Goblygiadau i raglenni astudio, ee oriau rhaglenni, amodau rheolau cyllido, datblygiad ystyrlon** | ☐ | ☐ | Ewch i'r tudalennau cymwysterau a digwyddiadau a hyfforddiant yn [skillsforwales.wales/cy](skillsforwales.wales/cy) i gael gwybodaeth am y canlynol:<br>• y llwybr y gall dysgwr ei ddilyn drwy'r cymwysterau<br>• y berthynas rhwng y cymhwyster Craidd a'r cymhwyster prentisiaeth<br>• yr ystod o lwybrau crefft, a gofynion cyflawni |
| **Mae pecynnau briffio a chymorth ar gael i staff ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y newidiadau i'w harferion** | ☐ | ☐ | Ewch i'r adran digwyddiadau/gweminarau ar skillsforwales.wales/cy i gael gwybodaeth am ddulliau asesu a chynnwys y cymwysterau newydd.<br><br>Cytunwch ar gynllun cadarn ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'ch canolfan, sy'n cyd-fynd â phob cymhwyster rydych am ei ddarparu. Ewch i'r dudalen hyfforddiant a digwyddiadau ar skillsforwales.wales/cy i gofrestru ar gyfer gweminar ynghylch cymhwyster, a darllenwch lawlyfr y cymhwyster i weld beth yw'r gofynion ar y ganolfan ar gyfer pob cymhwyster.<br><br>Chwiliwch am gyfleoedd a digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus – bydd rhai cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ar gael yn skillsforwales.wales/cy o fis Ebrill 2021 ymlaen. |
| **Mae cynlluniau yn eu lle i sicrhau arferion da wrth wreiddio'r broses o addysgu mathemateg, Cymraeg a Saesneg, a rhoi hynny yn ei gyd-destun** | ☐ | ☐ | Mae City & Guilds ac EAL yn cynnig cymorth a chanllawiau i helpu canolfannau i ddarparu Sgiliau Hanfodol Cymru. Ewch i skillsforwales.wales.cy i gael gwybodaeth am ein cynnyrch a'n gwasanaethau. |

# Ystyriaethau eraill

Ychwanegwch yn y fan yma unrhyw beth sy'n benodol i'ch sefydliad eich hun, neu unrhyw beth arall perthnasol sydd heb gael sylw uchod.

| Pethau eraill i'w hystyried | Bob dim yn glir, yn ddealladwy ac wedi'i roi ar waith? | Angen mwy o wybodaeth, neu fwy i'w wneud? | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |
| | ☐ | ☐ | |

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir wrth fynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, a chedwir yr hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

©2020 The City & Guilds of London Institute. Cedwir pob hawl.
Mae City & Guilds yn nod masnach i City & Guilds of London Institute, elusen a sefydlwyd i hybu addysg a hyfforddiant, ac mae wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (312832) ac yn yr Alban (SC039576).
5-6 Giltspur Street, Llundain EC1A 9DE.